



Yn glocwedd o'r chwith i'r dde: Hozier, Belinda Carlisle, Brydon, Mack a Mitchell, Paul Smith, Aled Jones & Russell Watson

Cynnwys

02-03

Dan sylw

Digwyddiadau Actifyddion
Artistig a manylion ein
Loffa Jin ar Lefel 4.

04-06

Proffil

Diversity: enillwyr
Britain's Got Talent yn
Born Ready.

Fisherman's Friends, y
'Band Bwi' gwreiddiol, yn
dod â chaneuon y môr a
llond rhwyd o ffwlbri'r môr
i'r Neuadd.

07-21

Ar Fynd

Manylion yr holl
ddigwyddiadau tan gamp
yn y Neuadd ym misoedd
Awst a Medi 2019 a Maes
o Law.

22-24

Gwybodaeth am Godi Tocynnau

Sut i godi'ch tocynnau a
manyion ein disgowntiau.



Dilynwch ni ar Twitter:
twitter.com/NeuaddDewiSant



Rydym ni ar Facebook:
www.facebook.com/NeuaddDewiSant

Os nad oes arnoch bellach eisiau cael manylion digwyddiadau i ddod yn y New Theatre/Neuadd Dewi Sant, cysylltwch â'n swyddfa docynnau ar 02920 87 84 44 a gofyn am gael eich tynnu oddi ar ein rhestr bost. Mae Cyngor Caerdydd yn gofrestredig gyda'r Swyddfa Comisiynwyr Gwybodaeth, rhif Z5832396.

Y LOLFA JIN

Y LOLFA JIN

Mae ein Lolfa Jin foethus ar Lefel 4 ar agor i bob perfformiad gyda'r hwyr yn yr Awditoriwm.

Champagne, gwin blasus a chwrw crefft, sioe wych o ddiodydd ysgafn heb sôn am dros ddeugain math o jin o bedwar ban byd:

Cwmni Suntory chwedlonol Japan sy'n gwneud, **Roku**, o ddail a blodau Sakura at y gwanwyn, te sencha a the gyokuro at yr haf, pupur sansho at yr hydref a chroen yuzu at y gaef.

Gewch chi flasw'r **Sharish Blue Magic** egsotig o dref ganoloesol Monsaraz ym Mhortiwgal. Mae ei liw glas godidog yn dod o rin blodyn o'r enw pysen las; pan gymysgwch chi'r jin â thonig mae'n troi'i liw'n binc hudol. Ymhlith y planhigion ynddo mae'r eithinen bêr, llysiau'r bara, gwreiddlysiau'r angel, sinsir, sinamon, cardamom, croen lemon, mefus a mafon.

O'n nes adref mae gennym ddewis amrywiol o jin o Gymru gan gynnwys **Brecon Botanicals**, jin graenus a wneir fesul ychydig yn Nistyllfa Penderyn. Mae iddo flas perlysiau, yr eithinen bêr ac arni flas y pridd a sbeisys y Dwyrain, awgrym o sinamon a bergamot. Mae Jin Gwymon **Dà Mhile** (a ynganir Da File), jin a wneir fesul ychydig yng Ngheredigion, wedi'i drwytho â gwymon i roi iddo naws y glannau. Ac yn Jin Sych **Cardiff Eccentric** glywch chi flas llysieuog rhywiog rhosmari, ffenigl, suran a gwylys



RYDYM YN Y LOLFA'N YFED JIN

a nodau sitrws lemonwellt a'r ferfain lemonaid. Fe'i gwneir â'r eithinen bêr naturiol a dyfir ar y comin yn Llantrisant.

Mae gennym jin clasurol hefyd, yn cynnwys Tanqueray, Sipsmith Sloe Gin, Plymouth Gin a'r Bols Genever clasurol, diledryw o hen resipi gwirodydd o'r flwyddyn 1820. Mae'n hŷn na'r un jin o Loegr ac ohono mae'r ymadrodd cyffredin 'Dutch Courage' yn deillio.

Gobeithio y cawn ni'ch gweld chi yn y Lolfa Jin cyn bo hir!

Actifyddion Artistig

CYNLLUN CYFANSODDWYR IFAINC – LEFEL 1

Ydych chi rhwng pymtheg a deunaw oed? Ymunwch â'n Cynllun Cyfansoddwyr Iffainc i ddatblygu eich sgiliau cyfansoddi, lle byddwch chi'n gweithio gyda chyfansoddwyr ac offerynwyr profesiynol.

GAMELAN CAERDYDD

Mawrth 6-8pm
Mae repertoire Gamelan

Caerdydd, ensemble gamelan cymuned oedolion Neuadd Dewi Sant, yn cynnwys cyfansoddiadau traddodiadol Java a chyfansoddiadau o'r gorllewin i'r gamelan. Mae croeso i aelodau newydd ymuno â'r cylch gallu cymysg yma, waeth beth fo'u profiad blaenorol.

SESIYNAU BLASU'R GAMELAN I YSGOLION

Mae'r sesiynau'n para dwyawr fel arfer ac maen nhw ar gael drwy gydol y tymor, yn ddefnyddiol i gyfnod allweddol 2 ymlaen.



Am ragor o wybodaeth rhowch ganiad i 029 2087 neu 8572 neu e-bostio artsactive@cardiff.gov.uk

GWREIDDIAU'R HYDREF

Daw mis Medi â dewis o ganu gwerin a cherddoriaeth y byd i'r Neuadd yn y gyfres Gwrando'r Gwreiddiau. Dewch aton ni i Lolfa L3 i berfformiadau agosatoch ac i'r awditoriwm i gyfarfod ar raddfa fwy â rhai o berfformwyr chwedlonol byd canu gwerin:

10 Medi | 8.00pm | L3

MARTIN SIMPSON

£16.00 ymlaen llaw | £17.00 ar y diwrnod

21 Medi

Drysau 7.00pm | Yr Auditorium

FISHERMAN'S FRIENDS

£27.50 | £35.00

11 Tachwedd | 7.30pm | Yr Auditorium

CELTIC WOMAN

£37.50 | £41.00

19 Tachwedd | 8.00pm | L3

JACKIE OATES

£13.00 ymlaen llaw | £14.00 ar y diwrnod

28 Ionawr | 7.30pm | Yr Auditorium

MARTYN JOSEPH

£18.50 ymlaen llaw | £19.50 ar y diwrnod



Diversity yn cyflwyno **BORN READY** Taith y Dengmlwyddiant Crëwyd gan Ashley Banjo

Ar ôl wyth taith yng ngwledydd Prydain a werthodd bob tocyn, dros hanner miliwn o docynnau wedi'u gwerthu, a pherfformiadau teledu a byw rhif y gwllith, mae Diversity yn dod â sioe garreg filltir ei Ddengmlwyddiant, *Born Ready* i Neuadd Dewi Sant.

Mae 2019 yn nodi deng mlynedd ers i Diversity ysgubo'r cenhedloedd hyn pan enillodd drydedd gyfres *Britain's Got Talent* o flaen cynulleidfa deledu o dros ugain miliwn. Ers hynny, diolch i gefnogaeth aruthrol ei selogion a phobl Prydain, mae'n dal i syfrdanu

cynulleidfaeodd drwy'r byd yn grwn â'i deithiau byw a'i berfformiadau sy'n torri tir newydd.

Meddai'r crëwr a'r coreograffydd Ashley Banjo, yn sôn am y daith sydd ar ddod:

'Born Ready is such an incredibly special tour for the whole Diversity family. 2019 marks 10 years since we won Britain's Got Talent and since then we have continued to innovate, grow and achieve things that most said were impossible. Be prepared for dance, illusions, mind blowing stunts and inspiring stories that will hopefully leave people amazed!'



Ar ôl bod yn feirniad ar bum cyfres *Got To Dance* Sky 1, ysgwyddodd Ashley Banjo rôl newydd pan ddaeth y sbloets *Dancing On Ice* yn ôl i ITV yn 2018 a daw yn ôl unwaith eto yn 2019. Mae Ashley hefyd wedi llywyddu, coreograffu a serennu yn *The Real Full Monty* (2017 a 2018) a enwebwyd am wobwr BAFTA a *The Real Full Monty: Ladies Night*. Daw'r ddwy sioe yma yn eu holau i ITV ddechrau 2019. Gwêl 2019 hefyd lansio sioe newydd Ashley *Flirty Dancing* ar Sianel 4. Ers serennu yn *I'm A Celebrity Get Me Out of Here* ITV, bu un o'i gyd-aelodau o Diversity Jordan Banjo yn llywydd ar

Revolution Sky 1 a bydd yn llywydd ar sioe awr frig newydd sbon danlli grai BBC 1, *The Greatest Dancer* fydd ar ein sgriniau teledu ddechrau 2019. Mae Diversity yn dal i ysbrydoli dawnswyr y to sy'n codi ac mae ar fin lansio ei ddosbarthiadau dawnswyr newydd sbon gyda 20DV.

Sul 22 Medi 2.00pm & 7.30pm

£31.00 | £41.00

Nifer gyfyngedig o becynnau VIP ar gael:

£81.50 | £127.50



Tudalen 24

FISHERMAN'S FRIENDS

Mae'r canwyr siantis enwog o Gernyw, Fisherman's Friends, yn cychwyn eu taith hydref yn y Neuadd ar 21 Medi, yn dilyn rhyddhau'n gynharach eleni'r ffilm hit sy'n adrodd eu stori.

Ers deng mlynedd ar hugain mae'r Fisherman's Friends, y 'band bwi' gwreiddiol, ynghlwm wrth ei gilydd gan gyfeillgarwch oes a phrofiad ar y cyd, yn cyfarfod ar y Platt ar yr harbwr yn nhref eu geni Port Isaac i ganu caneuon y môr. Ddeng mlynedd yn ôl cafwyd ganddyn nhw lofnodi'r cytundeb recordio a welodd eu halbwm *Port Isaac's Fisherman's Friends* yn cyrraedd safle Aur a hwythau'n dod yr act werin draddodiadol gyntaf erioed i gael albwm yn neg uchaf gwledydd Prydain.

Adroddir stori wir sut y digwyddodd hynny yn ffilm eli i'r galon fwyaf llwyddiannus y flwyddyn *Fisherman's Friends*, yn serennu Daniel Mays, James Purefoy, Tuppence Middleton a Noel Clarke ac ymddangosiadau cameo gan y grŵp y mae eu lleisiau hefyd i'w clywed ar y trac sain. Ar ben hynny, fel y bydd tynged yn rhoi rhyw dro anhygoel ar bethau, mae Pete Hicks sy'n ymddangos ar

Fisherman's Friends ar y sgrîn bellach wedi ymuno â'r gymanfa ei hun a bydd ar daith gyda'r hogiau yn yr hydref. Rhyddhawyd y ffilm mewn pictiwrs drwy hyd a lled gwledydd Prydain ym mis Mawrth, ochr yn ochr ag albwm diweddaraf y grŵp *Keep Hauling*. Mae'r albwm yn cynnwys dwy sianti ar bymtheg – rhai'n hen, rhai'n newydd a rhai braidd yn goch.

Bu allforyn cerddorol mwyaf adnabyddus Cernyw, y Fisherman's Friends, hefyd yn destun rhaglen ddogfen ar ITV, rhyddhodd yr albymau hit *One and All* (2013), *Proper Job* (2015) a *Sole Mates* (2018) a phob blwyddyn mae'n chwarae i ddegau o filoedd o selogion gartref a thramor

Sadwrn 21 Medi (Drysau 7.00pm)
£27.50 | £35.00

hynt Tudalen 24



**NEWYDD DDOD I LAW – MEHEFIN
SADWRN 8 7.30pm**



Kelly Jones

Don't Let The Devil Take Another Day

Taith Solo

Mae Kelly Jones – blaenwr a grym creadigol Stereophonics ers dros ddwy flynedd ar hugain – yn cael y clod o fod ymhlith lleisiau mwyaf ei genhedlaeth a rhydd i gynulleidfaedd y cyfle prin i weld perfformiadau dihafal ac agosatoch mewn noson o adrodd straeon a chreffft canu.

Fe glyw'r selogion amrywiaeth eang o gerddoriaeth ar y noson, wedi'i chodi o gatalog deg albwm y Stereophonics a gwerth mwy na dwy flynedd ar hugain o'u cerddoriaeth yn cynnwys rhai o ganeuon y band a berfformir yn anfyfnych. Does dim dwywaith na chynhwysir hefyd ganeuon o albwm solo Kelly *Only The Names Have Been Changed* o'r flwyddyn 2007 yn ogystal â chaneuon newydd sbon danlli grai a sgrifennwyd yn ddiweddar a'r cwbl yn cael ei draddodi ochr yn ochr â storïa Kelly a hanesion troeon yr yrfa.

£42.00 | £47.50 | £52.00

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £42.00 yr un.

Pob tocyn wedi'i werthu, holwch y Swyddfa Docynnau ynghylch dychwelion.

hynt Tudalen 24

**NEWYDD DDOD I LAW –
GORFFENNAF
SUL 28 3.00pm**



A Chance to Dance

Sioe ydi A Chance to Dance a roes J & J Event Management at ei gilydd i godi arian i Ysbyty Felindre.

Ymunodd plant o sawl ysgol Ddawns o bob cwr o Dde Cymru i gefnogi'r achos gwerth chweil yma.

Dewch aton ni i sioe rhy dda i'w cholli.

Rhaid i blant dan 14 oed fod yng nghwmni oedolyn.

£13.50

Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 24

Ar Fynd

SADWRN 3 7.30pm



Cerddorfa Genedlaethol Ieuencid Cymru

Andrew Litton – arweinydd

Grace Williams *Fantasia on Welsh Nursery Tunes*
Copland *The Tender Land Suite*
Shostakovich *Symffoni Rhif 10*

Mae Cerddorfa Genedlaethol Ieuencid Cymru'n dwyn i ben ei thaith gyngerdd haf flynyddol dan arweiniad meistrolgar yr arweinydd, Andrew Litton.

Mae'r rhaglen yn dal i'r dim hanfod pur wahanol tri chyfandir: y Fantasia chwareus a'r darlun o Orllewin Canol America'n cyferbynnu'n odidog â symffoni Shostakovich. Yn rhoi llwyfan i gerddorion ifainc mwyaf dawnus Cymru.

£16.00

Iau na 25: £5.00 yr un. Y Tocynnau Mantais Safonol sydd ar ôl: £2.50 yn rhatach, ac eithrio Plant dan 16 (gweler tudalen 22).
Ar Werth yn Awr



hynt Tudalen 24

SADWRN 17

Canol dydd – 6.00pm
Cyngerdd Gala 8.00pm



Law yn Llaw Caerdydd

Law yn Llaw ydi'r wyl bob yn ddwy flynedd sy'n dathlu corau LHDT+ gwledydd Prydain ac Iwerddon.

Eleni maen nhw'n falch o lywyddu'r digwyddiad yng Nghaerdydd a bydd dros ddeg ar hugain o gorau'n dod atyn nhw.

Bydd tocynnau ar gael i'r perfformiadau yn ystod y dydd a gyda'r nos.

Rhaid i blant dan 14 oed fod yng nghwmni oedolyn.

Tocynnau Diwrnod (canol dydd – 6.00 pm): £10.00

Tocyn Gala Gyda'r Nos (8.00 pm): £10.00

Tocyn diwrnod a gyda'r nos ar y cyd: £15.00

hynt Tudalen 24

SADWRN 24 10.00am

SADWRN 31 8.00pm

IAU 5 7.30pm



Pencampwr Pencampwyr Worthington

**Noddir gan
Red Dragon Darts**

Yn dilyn pencampwriaethau llwyddiannus mewn blynyddoedd a fu, gwêl Pencampwr Pencampwyr Dartiau 2019 ornest rhwng 256 o bencampwyr dartiau o flaen 1600 o selogion dartiau.

Yn ysbryd fformat y gorau o dri *News of The World* bydd miloedd yn cymryd rhan, yn chwarae'r fformat cyflymaf, mwyaf cyffrous ym maes dartiau'r byd. Y gronfa wobrau £31,500. Yr enillydd £10,000.

Mae croeso i wylwyr.

Mae gwbyodaeth gyflawn a gwbyodaeth am docynnau i'w cael yn www.reddragondarts.com

£10.00

(ar gael o'r wefan uchod)

The Dreamboys Taith 2019 ym Mhrydain

Mae'r Dreamboys, sioe orau oll gwledydd Prydain ar ddull Magic Mike, yn eu holau, yn boethach nag erioed ac i'w canlyn sioe newydd sbon danlli grai a thaith yng ngwledydd Prydain yn 2019. Does dim dwywaith nad ydi'r Dreamboys yn bennaf sioe stripio dynion gwledydd Prydain, i'r dim i noson allan i'r c'wennod gyda'ch ffrindiau i gyd. Yn ddiamau eu stondin ydi'r act stripio dynion enwocaf a gynhyrchodd gwledydd Prydain erioed. Dyma sioe sy'n fynd i gyd, llawn cerddoriaeth, cyhyrau, hud a hwyl digon i fynd â'ch gwynt chi.

Argymhellir 18 Oed+.

£19.50 | £24.50 | £28.50

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 22). Codwch ddeg tocyn a chael yr unfed ar ddeg am ddim. Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 24

Some Guys Have All The Luck

The Rod Stewart Story

Daw The Rod Stewart Story yn ei ôl ac i'w ganlyn sioe newydd sbon danlli grai, cyngerdd byw bondibethma sy'n dathlu un o gewri cerddoriaeth roc. Mae'r blaenwr Paul Metcalfe yn dal i'r dim holl gyffro, egni a charisma'r perfformiwr chwedlonol.

Gewch chi forio mewn hits fel *Handbags & Gladrags*, *You Wear It Well*, *Maggie May*, *Baby Jane*, *Da Ya Think I'm Sexy*, *Sailing*, *Tonight's The Night*, *The First Cut Is The Deepest* a *You're In My Heart*.

£26.50

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 22). Grwpiau o 10 neu fwy: pob tocyn £2.00 yn rhatach. Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 24

Ar Fynd

GWENER 6 8.00pm

SADWRN 7 11.00am

SUL 8 7.00pm



Ultimate Eagles

Yn syth ar ôl eu taith ysgubol o lwyddiannus yn Ewrop, Awstralia a Seland Newydd, dyma'r Ultimate Eagles yn eu holau unwaith eto i berfformio eu hits chwedlonol a ffeffrynau diweddarach. 'Y Peth Ail Orau i'r Eagles!' medden nhw ac yn y sioe yma mae'r Ultimate Eagles yn ail-greu yn gywir ac â pharch yn anad neb gerddoriaeth y Chwedl Americanaidd. Mae galw amdany'n nhw drwy'r byd yn grwn ac fe'u gwylwyd dros 15,000,000 o weithiau ar y cyfryngau ar-lein, yn dyst i'w poblogrwydd drwy'r gwledydd a'u safle i'w mawr chwenychu yn 'Sioe Eagles Fwya'r Byd'. Gyda pherfformio'n fyw bethau prin a chlasuron werthodd gyda'r gorau, mae'r sioe'n cynnig i chi'r profiad Eagles byw Gorau Oll.

£26.95

Cyfeillion Neuadd Dewi Sant: pob tocyn £2.00 yn rhatach. Ar Werth yn Awr

Mr Majeika and the Magic Organ

Cyngerdd i'r Teulu yng nghwmni

David Pipe organ

John Biddle adroddwr

Jeremy Sampson curadur y 'WOOFY'

Yn gwmni i David Pipe daw John Biddle i berfformio *Mr Majeika and the Magic Organ* Bob Chilcott, wedi'i seilio ar stori blant boblogaidd Humphrey Carpenter; ac at hynny Toccata a Ffiwg yn D leddf aruthrol Bach a cherddoriaeth o *Star Wars* a *Harry Potter*.

Ewch i www.stdavidshallcardiff.co.uk i weld manylion OrganWest 6-8 Medi 2019.

£10.00

Tocynnau Teulu: £10.50 | £14.00

Pobl anabl (ynghyd ag un cydymaith), Dros eu 60: £8.50 yr un. Myfyrwyr: £5.00. Grwpiau o 10 neu fwy: £7.50 yr un.

Seremoni Wobrwyo It's My Shout

Dewch i ddatlu'r ddawn newydd orau ym myd ffilm Cymru yn Noson Premières a Gwobrwyo It's My Shout. Gewch chi fod y cyntaf i wyllo ein 8 ffilm fer, pob un wedi'i chreu gan wneuthurwyr ffilmiau dawnus y to sy'n codi yng Nghymru. Cofiwch wisgo'n grand o'ch co' i chi gael noson i'w chofio!

£15.00

hynt Tudalen 24

MAWRTH 10 1.00pm



Cyngerdd Awr Ginio

Jeffrey Howard

**Ar y cyd â Digwyddiadau'r
Organ Caerdydd**

Mae'r brodor o Gaerdydd Jeffrey Howard B.E.M yn Gyfarwyddwr Cerddoriaeth yng Ngholeg Sant Ioan ac Eglwys Gadeiriol Fetropolitanaid Caerdydd, yn dal i ddilyn gyrfa'n organydd, yn bianydd, yn ganwr, yn hyfforddwr ac yn arweinydd. Cyfeiliodd i ganwyr rhyngwladol blaenllaw ym mydoedd opera ac adloniant ysgafn yn cynnwys Syr Bryn Terfel, Katherine Jenkins ac yn fwy anffurfiol, y Fonesig Shirley Bassey. Mae'r rhaglen heddiw'n cynnwys gweithiau gan Bach, Tchaikovsky a Vaughan-Williams.

**£6.00 ymlaen llaw
£7.00 ar y diwrnod**

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler tudalen 22).

1-2 blas ar gerddoriaeth



Tudalen 24

MAWRTH 10 8.00pm



Gwrando'r Gwreiddiau

Martin Simpson

Mae'r perfformiadau solo agosatoch rydd Martin yn ddigon o ryfeddod ac yn mynd o nerth i nerth – a phob gig yn ddsbarth meistr. Mae'n teithio ar hyd ac ar led gwledydd Prydain ac ymhellach draw, a'i chwarae'n cyfareddu cynulleidfaoedd ac yn rhoi iddynt angerdd, gofid, cariad, harddwch, alaeth a mawredd.

'Martin Simpson has transcended borders and oceans to quietly become a superb storyteller and musician of great depth and unquestionable taste.'
Stephen Fearing

**£16.00 ymlaen llaw
£17.00 ar y diwrnod**

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 22).



Tudalen 24

IAU 12 7.00pm



Cymru a Chorea – Dathliad 2019

Robert Jermain Thomas (1839-1866) a'r Diwygiad yng Nghymru ym 1904 – dau beth a effeithiodd ar y Diwygiad Mawr ym 1907 yng Nghorea.

Mae gwahoddiad cynnes i chi ddod aton ni i gymanfa addoli a gweddio ddihafal gyda **chôr o Gorea, Côr Cambrensis** a chynrychiolwyr eraill i alw ar Dduw gyda'n gilydd am symud mwy grymus yr Ysbryd yn ein cenhedloedd.

Mynediad Am Ddim

Tocynnau ar gael o'r Swyddfa Ddocynnau neu o'r wefan.

Ar Fynd

GWENER 13 7.30pm



What's Love Got To Do With It?

Teyrnged i Tina Turner

What's Love Got To Do With It? ydi'r sioe newydd orfoleddus sy'n dathlu cerddoriaeth y gantores anhygoel Tina Turner. Mae'r sioe'n dathlu gyrfa digon i fynd â'ch gwynt chi sy'n ymestyn dros hanner can mlynedd; caiff y gynulleidfa edrych ymlaen at glywed trefniannau cerddorol trawiadol hoff hits clasurol Tina yn cynnwys: *Private Dancer*, *What's Love Got To Do With It?*, *Proud Mary*, *River Deep*, *Nutbush City Limits*, *Simply The Best* a llond gwlad at hynny.

£25.00 | £28.00 | £30.00

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £25.00 yr un. Uchafrif o 6 thocyn yr un. Rhaid i blant dan 14 oed fod yng nghwmni oedolyn. Ar Werth yn Awr



SADWRN 14 8.00pm



Paul Smith – Following

Ac Eraill

Yn dilyn ei daith genedlaethol gyntaf yn 2018 a'i gwelodd yn mynd, o fewn llai na blwyddyn, o act ar y cylch yn un o'r enwau sy'n gwerthu orau ym myd stand-up gwledydd Prydain, daw Paul Smith yn ei ôl yn ei ail sioe ar daith genedlaethol – Following.

Dewch ato, un o ffefrynnau'r dyrfa, i noson arall o chwerrthin llond bol. Os gwelsoch chi daith 2018, a ddaeth i ben mewn noson fythgofiadwy yn M&S Bank Arena, does dim dwywaith na ddowch yn eich ôl, os na welsoch chi hi cofiwch beidio â'i cholli eilwaith.

Rhaid i blant dan 14 oed fod yng nghwmni oedolyn. Cynghorir arweiniad rhieni.

£20.50

Ar Werth yn Awr



MAWRTH 17 7.30pm



Llun gan Edward Cooke

Hozier

Yn dilyn rhyddhau ei albwm diweddaraf *Wasteland Baby!*, mae Hozier, yr artist werthodd luos-blatinwm, yn perfformio yn y Neuadd yn rhan o'i daith yn Ewrop. Rhyddhaodd y cerddor, y canwr a'r cyfansoddwr caneuon arobryn o lwerddon ei albwm début yn 2014; roedd yn cynnwys yr anthem enwebwyd am wobr Grammy *Take Me To Church* ac yn cynnwys hefyd y gân hyderus *Someone New*, y gân eneidfawr *Work Song* a'r gân gynnar oedd ar ei phen ei hun *From Eden*.

£32.00 | £37.50

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £32.00 yr un.

Pob Tocyn Wedi'i Werthu



GWENER 20 7.30pm

SADWRN 21 Drysau 7.00pm



Hello Again – The Story of Neil Diamond

Mae delweddau atgofus, fideo a thraethu'n ychwanegu at yr hud, a'r sioe'n mynd â chi ar daith gerddorol drwy yrfa hanner can mlynedd ddisglair Neil Diamond.

O *The Bang Years* hyd heddiw buan y byddwch chi'n morio canu'r holl hits yn cynnwys *Sweet Caroline*, *Cracklin' Rosie*, *Forever in Blue Jeans*, *Song Sung Blue*, *Hello Again*, *Love on the Rocks*, *America* a llawer at hynny, gan gynnwys *Brooklyn Horns* ac *Ascending Strings*.

£23.50 | £26.00

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 22). Defnyddwyr cadeiriau olwyn (ynghyd ag un cydymaith): Seddi'r stalau £23.50 yr un.

Ar Werth yn Awr

Fisherman's Friends

Keep Hauling

Dyma'r 'band bwi' gwreiddiol, ynghlwm wrth ei gilydd gan gyfeillgarwch oes a phrofiad ar y cyd, sef y Fisherman's Friends sy'n cyfarfod ar y Platt ar yr harbwr yn nhref eu geni Port Isaac ers deng mlynedd ar hugain i ganu caneuon y môr. Ddeng mlynedd yn ôl cafwyd ganddyn nhw lofnodi'r cytundeb recordio a welodd eu halbwm *Port Isaac's Fisherman's Friends* yn cyrraedd safle Aur a hwythau'n dod yr act werin draddodiadol gyntaf erioed i gael albwm yn neg uchaf gwledydd Prydain.

Adroddir stori wir sut y digwyddodd hynny yn ffilm hit eli i'r galon y flwyddyn *Fisherman's Friends*, i'w gweld yn y pictiwrws ym mis Mawrth 2019.

Rhaid i blant dan 14 oed fod yng nghwmni oedolyn.

£27.50 | £35.00

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £27.50 yr un.

Ar Werth yn Awr



Ar Fynd

SUL 22 2.00pm & 7.30pm



Diversity

Born Ready

Taith y Dengmlwyddiant

Ar ôl wyth taith yng ngwledydd Prydain, a werthodd bob tocyn, dros hanner miliwn o docynnau wedi'u gwerthu, a pherfformiadau teledu a byw rhif y gwllith, cyhoeddodd Diversity daith yng ngwledydd Prydain yn hydref 2019, *Born Ready*, i ddathlu carreg filltir ei Ddengmlwyddiant.

Mae 2019 yn nodi deng mlynedd ers i Diversity ysgubo'r cenhedloedd hyn pan enillodd drydedd gyfres *Britain's Got Talent*, gyda churo Susan Boyle o flaen cynulleidfa deledu o dros ugain miliwn. Ers hynny, diolch i gefnogaeth aruthrol ei selogion a phobl Prydain, mae'n dal i syfrdanu cynulleidfaedd drwy'r byd yn grwn â'i deithiau byw a'i berfformiadau sy'n torri tir newydd.

£31.00 | £41.00

VIP: £81.50 | £127.50

Defnyddwyr cadeiriau olwyn (ynghyd ag un cydymaith):
Seddi'r stalau £31.00 yr un.

Ar Werth yn Awr



LLUN 23 – MERCHER 25
8.00pm



Noson yng Nghwmni Brydon, Mack a Mitchell

Rob Brydon, Lee Mack a David Mitchell, y digrifwyr a'r meistri ar ddweud stori sy'n hoff gan bawb, ar daith i rai o theatrau gwledydd Prydain. Dewch at Rob, Lee a David i noson rhy dda i'w cholli o sgwrsio, comedi a thipyn o boitsio.

£42.00

Pob Tocyn Wedi'i Werthu.



IAU 26 7.30pm



Aled Jones & Russell Watson

Taith In Harmony

Bydd Aled a Russell yn mynd â'u halbwm début *In Harmony* oedd yn y Deg Uchaf ar eu taith gyntaf erioed gyda'i gilydd yng ngwledydd Prydain drwy gydol misoedd Medi a Hydref 2019, yn dod â'u profiadau byw i rai o oedfannau hardda'r gwledydd gan gynnwys Neuadd Dewi Sant.

£31.50 | £41.50 | £57.00

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £31.50 yr un.

Ar Werth yn Awr



GWENER 27 7.30pm



Ben Phillips Taith Fyw 2019

Ben vs Elliot

Mae Ben Phillips wedi gwneud strôc ar y cyfryngau cymdeithasol ac ysgubo'r byd yn grwn. Ar Gweplyfr gwylwyd y brodor 26 oed o Ben-y-bont ar Ogwr bum biliwn syfrdanol o weithiau. Mae'n un o'r dylanwadwyr mwyaf yn Ewrop, ac agos i ddeng miliwn yn ei 'hoffi' a'r nifer yn dal i godi. Mae'r daith yma'n gweld y castiwr enwog yn herio'i frawd yn lle chwarae castiau arno! Bydd Ben ac Elliot benben ar Daith Fyw Ben Vs Elliot – ond pwy fydd yn cario'r dydd?

Rhaid i blant dan 14 oed fod yng nghwmni oedolyn.

£27.95

Ar Werth yn Awr



SADWRN 28 8.00pm



Frank Skinner

Showbiz

Cyfle rhy dda i'w golli i weld un o chwedlau byd comedi, Frank Skinner, yn perfformio stand-up newydd sbon danlli grai mewn amgylchfyd agosatoch.

'Provocative, remorseless, and very, very funny'

Times

'One of Britain's funniest men'

Evening Standard

£25.00 + £2.50 Ffi Codi Tocynnau
Ar Werth yn Awr



Ar Fynd

SUL 29 Gwasanaeth
3.00pm – 5.00pm



LLUN 30 Drysau 7.00pm



Bendithio Caerdydd

Dyma ddathlu Deng Mlynedd a Phedwar Ugain o Eglwys y Ddinas (neu Deml y Ddinas fel mae llawer yn dal i'w chofio) â gwasanaeth o addoli llawen, straeon yn deillio o hanes a bywyd presennol yr eglwys a gwybodaeth am ein cynlluniau i Fendithio plant Caerdydd eleni, a ninnau'n dathlu pen ein blwydd.

**Digwyddiad â thocynnau am ddim.
Tocynnau ar gael gan Eglwys y
Ddinas 07698 861 269**

Belinda Carlisle

Runaway Horses, Taith y Dengmlwyddiant
ar Hugain

Nos Lun 30 Medi 2019 mae'r eicon pop o'r wyth degau Belinda Carlisle yn dathlu'n grand o'i cho' ddeng mlynedd ar hugain ers rhyddhau ei halbwm clasurol *Runaway Horses*.

Ym mis Hydref 1989 y rhyddhawyd trydydd albwm solo'r gantores o California ac roedd yn llwyddiant ysgubol yng ngwledydd Prydain gyda chyrraedd Rhif 4 a chael ei ardystio'n albwm Platinwm. Yn ogystal â rhoi lle amlwg i gymanfa o artistiaid gwadd yn cynnwys George Harrison a Bryan Adams, mae *Runaway Horses* hefyd yn cynnwys amryw o hoff ganeuon Belinda gan gynnwys *Leave a Light On*, *Summer Rain* a *La Luna*.

Daeth Belinda i enwogrwydd byd-eang yn gyntaf yn ganwr blaen y grŵp merched The Go-Gos cyn cychwyn ar yrfa doreithiog yn seren solo. Buan y dilynodd hits ysgubol megis *Mad About You*, *I Get Weak*, *Circle in the Sand* ac, yn enwocaf oll, *Heaven is a Place on Earth* – oedd ar frig y siartiau ar ddwy lan yr Iwerydd.

Cyfyngiad Oed 14+ (rhaid i blant dan 16 oed fod yng nghwmni oedolyn).

£35.00 | £45.00 | £57.50

Ar Werth yn Awr



Tudalen 24

HYDREF 2019

Gwener 4 & Sadwrn 5	8.00pm	Rob Beckett – Wallop*
Sul 6	7.30pm	Penguin Cafe*
Llun 7	7.30pm	Les Musicals*
Mawrth 8	7.30 pm	Will Young*
Mawrth 15	7.30pm	Taith y Byd Gŵyl Ffilmiau'r Cefnfor*
Mercher 16	7.30pm	Kevin Bloody Wilson*
Iau 17	7.30pm	Sixties Gold*
Sadwrn 19	7.45pm	Amanda Palmer*
Sul 20	3.00pm	The Best of John Williams*
Llun 21	7.30pm	The Greatest Love of All* yn serennu Belinda Davids
Mercher 23	8.00pm	Friday Night is Music Night BBC Radio 2* yn cyflwyno The Songs of Barry White yn serennu Peabo Bryson i gyfeilliant y Leo Green Orchestra
Sadwrn 26	7.30pm	Lulu*
Mawrth 29 & Mercher 30	7.30pm	Tim Minchin*
Iau 31	7.30pm	The Music of Bond*

RAYMOND GUBBAY yn cyflwyno

THE BEST OF JOHN WILLIAMS

O E.T. i Star Wars a'r tu hwnt... does dim byd tebyg i sgorau ffilm eiconig John Williams.

**E.T. HARRY POTTER JAWS STAR WARS
SUPERMAN JURASSIC PARK
SCHINDLER'S LIST CLOSE ENCOUNTERS**

Pete Harrison *arweinydd* LONDON CONCERT ORCHESTRA

Sul 20 Hydref 2019 am 3.00pm

* Ar Werth yn Awr

Maes o Law

TACHWEDD 2019

Gwener 1	Drysau 7.00pm	Lisa Stansfield – Affection Taith y Dengmlwyddiant ar Hugain*
Mercher 6	7.30pm	The Stylistics 2019*
Iau 7	7.30pm	Ben Elton yn Fyw*
Sadwrn 9	7.30pm	Steve Hackett Genesis Revisited 2019*
Sul 10	3.00pm	Glenn Miller Orchestra*
Llun 11	7.30pm	Celtic Woman*
Mercher 13	Drysau 7.00pm	Squeeze*
Gwener 15	8.00pm	Russell Kane*
Sadwrn 16	7.30pm	Marillion gyda'u Ffrindiau o'r Gerddorfa* + Harry Pane
Mawrth 19	8.00pm	Gwrandor Gwreiddiau* Jackie Oates – L3*
Sadwrn 23	7.30pm	Jonathan Pie: The Fake News Tour*
Llun 25	7.30pm	Love Actually* Cyngerdd Byw gyda Cherddorfa Lawn
Mawrth 26	7.30pm	John Robins: Hot Shame*
Iau 28 & Gwener 29	8.00pm	Romesh Raganathan* Pob Tocyn Wedi'i Werthu. Holwch y Swyddfa Docynnau ynghylch dychwelion
Sadwrn 30	7.30pm	Adam Ant*



Iau 7 Tachwedd 7.30pm | £32.00

BEN ELTON

LIVE  2019

* Ar Werth yn Awr

RHAGFYR 2019

Sul 1	3.00pm	Now! That's What I Call the 80s*
Iau 5	7.30pm	The Bootleg Beatles mewn Cyngerdd*
Iau 19 – Gwener 20	Amryw Oriau	Bale Gwladol Rwsiaidd Siberia Coppélia*
Sadwrn 21 – Mawrth 24	Amryw Oriau	Bale Gwladol Rwsiaidd Siberia The Nutcracker*
Gwener 27 – Mawrth 31	Amryw Oriau	Bale Gwladol Rwsiaidd Siberia Swan Lake*

IONAWR 2020

Mawrth 28	7.30pm	Martyn Joseph*
-----------	--------	-----------------------

CHWEFROR 2020

Gwener 28	Drysau 7.00pm	Lighthouse Family*
-----------	---------------	---------------------------

MAWRTH 2020

Llun 9	7.30pm	Dick & Angel* Dare to Do It!
Mercher 11	7.30pm	Milton Jones yn Milton Impossible*
Sadwrn 21	8.00pm	Ed Byrne*
Llun 23	8.00pm	The Boys Are Back!*

EBRILL 2020

Mercher 8	7.30pm	The Sensational 60s Experience*
Mercher 22	7.30pm	Queen Machine Symphonic* Yn rhoi llwyfan i Kerry Ellis

MEHEFIN 2020

Llun 1 – Mercher 3	7.30pm	Riverdance* Sioe Newydd y Chwarter Canmlwyddiant
-----------------------	--------	--

HYDREF 2020

Sadwrn 3	8.00pm	Jimmy Carr*
----------	--------	--------------------

* Ar Werth yn Awr

GOK WAN
MIKE DOYLE CERI DUPREE

CINDERELLA

THE FAIRY GODMOTHER
OF ALL PANTOMIMES

PHIL BUTLER

7 DEC 2019 - 12 JAN 2020
7 RHAG 2019 - 12 ION 2020

newtheatrecardiff.co.uk
029 2087 8889

NEW THEATRE
CARDIFF
1888

Llun 9 Mawrth 7.30pm | £25.00 - £29.50

DICK & ANGEL

DARE TO DO IT!

* Ar Werth yn Awr



Cadwch Mewn Cysylltiad ac Mewn Cywair – Dewch yn Gyfeillion Pennaf!

Gewch chi fod yn un o'r cyntaf i wybod be sydd ar fynd, cael y llyfryn yn boeth o'r wasg a chael blaenoriaeth yn codi tocynnau, a gostyngiadau'r Cyfeillion am ddim ond £18 y flwyddyn.

Llenwch y ffurflen gais a dechrau mwynhau manteision bod yn un o'n Cyfeillion! benefits of being a Friend of ours!

FFURFLEN GAIS CYFEILLION NEUADD DEWI SANT

Enw: _____

Cyfeiriad: _____

Cod Post: _____

Teleffon (yn ystod y dydd): _____

Teleffon (gyda'r nos): _____

Cofiwch roi cyfeiriad e-bost i ni fel y gallwn roi gwybod i chi'n syth pan fydd sioeau newydd ar werth rhwng llyfrynau.

Ebst: _____

Taliad (ticiwch fel y bo'n briodol
Rydw i'n amgáu siec/archeb bost yn daladwy i: CYNGOR
CAERDYDD am £18 am flwyddyn gyntaf fy aelodaeth o'r
Cyfeillion

A wnewch chi godi £18 ar fy Mastercard Visa

Switch Delta

Cod Sicrwydd
(y tri rhif olaf ar gefn eich cerdyn)

Rhif y Cerdyn:

Dyddiad Cychwyn: _____

Dyddiad Terfyn: _____

Rhif cyhoeddi (Switch yn unig) _____

Llofnod Deiliad y Cerdyn _____

Gwybodaeth am godi tocynnau

Swyddfa Docynnau: 029 2087 8444
Codi tocynnau ar lein –
www.stdavidshallcardiff.co.uk
Gweinyddiaeth: 029 2087 8500

Bellach gallwch ddewis eich sedd eich hun pan fyddwch yn codi tocynnau ar lein.

I rai digwyddiadau, am fod cynifer o gwsmeriaid yn y Swyddfa Docynnau, efallai y bydd gofyn i ni atal gwerthiannau digwyddiadau diweddarach hanner awr cyn dechrau perfformiad.

Mae codi tocynnau yn hawdd

Mae'r Swyddfa Docynnau ar agor o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn o hanner awr wedi naw tan hanner awr ar ôl dechrau'r perfformiad (neu bump o'r gloch pan does dim perfformiad) a dyddiau Sul a Gwyliau Banc awr cyn y perfformiad i bobl sy'n dod yn bersonol yn unig.

Teleffon ar 029 2087 8444. Talwch yn y fan â chardiau debyd neu gredyd (efallai y bydd ffi am bob tocyn i rai sioeau). Rydym yn derbyn cardiau Mastercard, Visa a Delta. Fodd bynnag, nid ydym yn derbyn cardiau Solo nac Electron. Cofiwch gasglu tocynnau wedi eu talu ymlaen llaw hanner awr cyn cychwyn y perfformiad.

Mae'r llinellau teleffon yn cau hanner awr cyn amser cau'r Swyddfa Docynnau.

POST sgrifennwch atom ni yn Neuadd Dewi Sant, Yr Aes, Caerdydd, CF10 1AH gyda manylion llawn eich gofynion gan gynnwys eich dewis fan eistedd ac unrhyw ddisgowntiau sy'n berthnasol. Cynhwyswch eich enw, eich cyfeiriad, eich cod post a rhif teleffon yn ystod y dydd ac amgáu siec yn daladwy i Gyngor Caerdydd neu fanylion eich cerdyn (gan gynnwys y dyddiad terfyn a rhif dosbarthu Switch), ac amlen â chyfeiriad a stamp ar gyfer anfon eich tocynnau. Mae yna dâl o £1.00 am anfon tocynnau drwy'r post.

Yn Wyrdd Amdani – Ymunwch â'n rhestr e-bost a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am sioeau a chynigion yn syth i'ch blwch derbyn. Ymgofrestrwch yn www.stdavidshallcardiff.co.uk

Amdiffyn Data

Pan fyddwch chi'n codi tocynnau i Neuadd Dewi Sant cadwir eich gwybodaeth bersonol ar system gyfrifiadurol y Swyddfa Docynnau. Drwy godi tocynnau rydych chi'n caniatáu cadw'ch gwybodaeth bersonol yn unol â'r Deddfau Amdiffyn Data. Gofynnir i chi a geir defnyddio'r wybodaeth yma:

- i roi gwybod i chi am ddigwyddiadau neu ddatblygiadau i ddod yn New Theatre neu Neuadd Dewi Sant;

- i'w rhoi i gyrrff eraill yn y celfyddydau yn ne Cymru – a allai gynnwys Theatr Sherman, Canolfan Mileniwm Cymru, CBCCD, National Theatre Wales, Canolfan Celfyddydau Chapter, Opera Cenedlaethol Cymru, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Sinfonia Cymru a Ballet Cymru – at ddiben tebyg;
- i'w rhoi i gyrrff heb fod yn y celfyddydau, wedi'u dethol yn ofalus, at ddiben rhagor o wybodaeth a allai fod o ddiddordeb i chi.

Gofynnir i chi ddweud pa ddewisiadau sy'n dderbyniol gennych. Bydd hyn yn rhoi lle i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â'ch dymuniadau.

Gellir rhannu gwybodaeth codi tocynnau cwsmeriaid (ac eithrio manylion cardiau credyd) ag asiantaethau allanol at ddiben dadansoddi. Bydd Neuadd Dewi Sant yn gwneud popeth rhesymol i sicrhau diogelwch data oddi mewn i'r broses yma.

Mae prosesau Neuadd Dewi Sant yn cydymffurfio â Deddf Amdiffyn Data 1998.

Rheolir, cynhyrchir a gweithir ein gwefannau a'n Hysbysebion Swyddogol gan Neuadd Dewi Sant o'n swyddfeydd yn y Deyrnas Unedig. Nid yw Neuadd Dewi Sant yn dweud ar gyfrif yn y byd fod y deunydd a'r wybodaeth ar ein gwefan neu y gellir eu cyrchu drwyddi nac yn addas nac ar gael i'w defnyddio mewn Gwledydd eraill y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Tocynnau Mantais Safonol

Mae'r tocynnau mantais sy'n dilyn yn berthnasol i sioeau sy'n dangos gostyngiadau yn y panel prisiau: Cyfeillion Neuadd Dewi Sant, Plant dan 16, Myfyrwyr, *Pobl dros eu 60, Pobl anabl (ynghyd ag un cydymaith), Hawlwyr, Dalwyr cardiau MAX ac Aelodau Corfforaethol. Dim ond un disgownt y ceir ei ddefnyddio ar bob tocyn ac mae gofyn prawf o safle. Cofiwch ddweud pa ddisgownt rydych yn ei hawlio pan fyddwch chi'n codi tocyn.

* Efallai na fydd y disgownt yma'n berthnasol i rai perfformiadau.

Caiff defnyddwyr cadeiriau olwyn (ynghyd ag un cydymaith) brynu seddi'r stalau am bris y tocyn rhataf i sioeau sy'n dangos y gostyngiad yma. Does dim dal y bydd llefydd cadeiriau olwyn ar gael a dylid eu cadw drwy'r Swyddfa Docynnau, nid ar lein, er mwyn ymorol am anghenion penodol cwsmeriaid.

Tocynnau Myfyrwyr

Mae tocynnau £5.00 hefyd ar gael i gyngherddau yng Nghyfes Cyngherddau Rhyngwladol Neuadd Dewi Sant hyd at hanner awr wedi chwech ar ddiwrnod y perfformiad.

Rhaid casglu tocynnau ac fe'u rhoddir pan ddangosir cerdyn adnabod myfyrwr dilys.

Grwpiau

Rydym yn croesawu partïon o unrhyw faint ac yn cynnig disgowntiau dethol i grwpiau o ddeg neu fwy. Rhowch ganiad i'r Llinell Boeth Grwpiau unswydd ar 029 2087 8443

Tocynnau Teulu

Mae Tocynnau Teulu ar gael i rai digwyddiadau lle dangosir hynny. Mae hyn yn berthnasol i Deulu o bedwar sy'n cynnwys uchafrif o ddau oedolyn a dau o blant dan 16.

Plant

Mae gostyngiadau a phrisiau arbennig yn berthnasol i lawer o ddigwyddiadau. Am resymau lechyd a Diogelwch, bydd gofyn tocyn ar bob plentyn oed cerdded.

Cyfeillion Neuadd Dewi Sant

Gewch chi ostyngiadau dethol, copi o'r llyfryn gyda llythyr newyddion bob yn ddeufis a blaenoriaeth yn codi tocynnau i'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau am ddim ond £18 y flwyddyn. Rhowch ganiad i'r Swyddfa Docynnau ar

029 2087 8444 i gael rhagor o fanylion.

Ad-Daliadau a Chyfnwidiadau

Mae Neuadd Dewi Sant yn rhoi mawr werth ar ymroddiad ei chwsmeriaid yn codi tocynnau'n fuan ac mae'n cydnabod bod pethau annisgwyl weithiau'n nadu i bobl ddod.

Gellir cyfnwidiadau tocynnau i unrhyw ddigwyddiad am yr un pris neu'n uwch (o dalu'r gwahaniaeth). Nid yw'r dewis cyfnwidiad ar gael i gyngherddau sydd wedi gwerthu pob tocyn. Os bydd digwyddiad yn rhan o dymor penodol (ee Proms, Bale etc), cynigir tocynnau i'w cyfnwidiad yn rhan o'r un tymor. Rhaid i docynnau ddod i law yn y Swyddfa Docynnau dim diweddarach na phedwar awr a deugain cyn y perfformiad gwreiddiol. Mae tâl o £2.00 am y gwasanaeth yma. (Gwaetha'r modd, ni ellir na chyfnwidiad nac ailwerthu yn Neuadd Dewi Sant docynnau a godwyd drwy Ganolfan Gofal Cwsmeriaid y BBC.)

Fel arall derbynir tocynnau i'w hailwerthu ar yr amod mai tocynnau Neuadd Dewi Sant a werthir yn gyntaf ac nad oes modd sicrhau ailwerthu. Ni allwn ailwerthu tocynnau oni bai bod y tocynnau gwreiddiol yn cael eu dychwelyd i'r Swyddfa Docynnau. Cedwir 20% gwerth unrhyw ailwerthu.

Ar wahân i'r ddau wasanaeth yma neu ganslo perfformiad, nid ad-dalir arian unwaith y bydd tocynnau wedi'u codi.

Os canslir perfformiad rhaid dychwelyd tocynnau i'r man prynu (e.e. Os codwyd nhw drwy un o'n hasiantaethau tocynnau cydnabyddedig, dylid eu dychwelyd yn uniongyrchol atyn nhw).

Hwyrddyfodiad

I osgoi amharu, dim ond pan fydd saib addas yn y perfformiad y gellir gadael i hwyrddyfodiad ddod i mewn i'r awdritoriwm. Gellir gwyllo'r cyngerdd drwy deledu cylch cyfyng yn Lolfa L3.

Amodau gwerthu

Cadwn yr hawl i wneud newidiadau yn y cast neu'r rhaglen os oes gofyn.

Gellir gwrthod mynediad dan rhai amgylchiadau heb o anghenraid wneud ad-daliad. Cofiwch fwrw golwg ar eich tocynnau pan godwch nhw i ymorol eu bod yn gywir. Fel y gwel yn dda Rheolwr y Swyddfa Docynnau y mae ad-daliadau.

Cofiwch ymorol bod eich ffôn symudol wedi'i ddi-fodd yn ystod y perfformiad. Ni chaniateir na thynnu lluniau na recordio unrhyw berfformiad.

Tâl Gwasanaeth Tocynnau

Mae tâl Gwasanaeth Tocynnau ar rai pryniannau tocynnau, sef £3.95 y pryniant felly, i'r digwyddiadau yma, dim ond £3.95 dalwch chi, waeth faint o docynnau godwch chi ar y pryd. Mae'r Tâl Gwasanaeth Tocynnau yn ymorol am gost cynhyrchu eich tocynnau, prosesu eich archeb ac anfon eich tocynnau atoch chi. Mae'n amcan gennym roi gwasanaeth tan gamp i gwsmeriaid pa un a ydyn nhw'n ymweld â ni'n bersonol, yn galw ar y ffôn ynteu'n rhyngweithio â ni arlein. Bydd y tâl bychan yma am bob gwerthiant yn rhoi lle i ni ddal i wneud hyn er gwaethaf galw mwyfwy ar adnoddau gwerthfawr.

*Bydd rhai digwyddiadau heb y Tâl Gwasanaeth Tocynnau – er enghraifft digwyddiadau a drefnir gan A2 Actifyddion Artistig ac unrhyw ddigwyddiad a chanddo'n bris drutaf £13.00 neu lai.

Yfed Cyfrifol

A ninnau'n oedfan adloniant trwyddedig rydym yn hybu yfed cyfrifol. Os bydd unrhyw gwsmeriaid yn dangos arwyddion o feddwod, ymosoddedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, oherwydd diod neu rywbeth arall, cânt eu hebrwng o'r adeilad ac ni chynigir dim ad-daliadau tocynnau.

Gwybodaeth am godi tocynnau

SUT I DDOD ATOM

Rydym yng nghalon Caerdydd nesaf at Ganolfan Siopa Dewi Sant ar Yr Aes.



A wnech chi ymorol bod eich ffôn symudol wedi'i ddiffodd yn ystod y perfformiad. Ni chaniateir tynnu lluniau na recordio unrhyw berfformiad.

GWASANAETHAU I GWSMERIAID



Os oes gennych chi ofynion eistedd arbennig a wnech chi roi gwybod i'r Swyddfa Docynnau.



Mae cyfleusterau i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yn cynnwys lloriau gwastad, cyfleusterau tai bach (yn y Bwyty ac ar Lefelau 2,3,4 a 5) a chownteri lefel isel yn y Swyddfa Docynnau, yr Ystafell Gotiau a Bar Lefel 3. Gall defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith godi tocynnau i seddi cefn y stalau am bris y tocyn rhataf sydd ar gael ar gyfer y perfformiad. Efallai y bydd cwsmeriaid ag anawsterau cerdded yn cael mai seddi'r stalau ydi'r mwyaf hygrych.



Mae system is-goch ar gael yn yr awdutoriw (ac eithrio Rheng 5) a gellir ei defnyddio heb neu gyda chymorth clywed. A wnech chi roi gwybod i staff y Swyddfa Docynnau pan fyddwch chi'n codi tocynnau a rhoddir cyfarwyddiadau defnyddio cyflawn pan gyrrhaeddwch chi ar gyfer y digwyddiad.

Am wybodaeth ynghylch sut y gall cwsmeriaid â nam ar eu symudedd fynd i Neuadd Dewi Sant mewn cerbyd pan fyddan nhw'n mynd i berfformiad neu ddigwyddiadau penodol sydd heb fod yn berfformiadau, ewch i dudalennau Eich Ymweliad a Mynediad y wefan www.stdavidshallcardiff.co.uk neu roi caniad i'r Swyddfa Docynnau ar **029 2087 8444**. Cofiwch, er mwyn cydymffurfio â chytundeb rhwng Cyngor Caerdydd a Heddlu De Cymru, mai hyn a hyn o

drwyddedau gollwng i gerbydau preifat a rannir ar gyfer pob perfformiad yn ôl y drefn y cyntaf i'r felin gaiff falu.



Mae gwybodaeth am ddigwyddiadau ar gael mewn fformatau Braille a phrint bras o'r ddesg ar lawr gwaelod y Neuadd, Llyfrgell Ganolog Caerdydd a Chymdeithas Deillion Caerdydd. I gael eich copi eich hun rhwch ganiad i'r Adran Farchnata ar 029 2087 8542.



Mae croeso i gŵn tywys.

A wnech chi roi gwybod i'r Swyddfa Docynnau pan fyddwch chi'n codi tocynnau.



Cynllun cenedlaethol newydd ydi **Hynt** sy'n gweithio gyda theatrau a chanolfannau celfyddydau drwy hyd a lled Cymru i ymorol bod pethau'n glir ac yn gyson o ran polisi tocynnau teg a mynediad. Mae gan ddeiliaid cardiaid **Hynt** hawl i docyn yn rhad ac am ddim i gynorthwywr personol neu ofalwr yn Neuadd Dewi Sant a'r holl theatrau a chanolfannau celfyddydau sy'n rhan o'r cynllun. Ewch i www.hynt.co.uk i gael gwybodaeth am y cynllun ac i ymuno.